



Hafren Dyfrdwy: Ein Diben Cymdeithasol

**RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP**

**HAFREN
DYFRDWY**

severn dee

Rhagymadrodd

Yn Hafren Dyfrdwy, credwn fod bod yn gwmni sydd â diben cymdeithasol yn egwyddor graidd. Rydym yn gwmni a gaiff ei dywys gan foesege o wasanaeth cyhoeddus pendant sydd hefyd yn gwneud defnydd o'r buddion o fuddsoddi gan y sector preifat i wella gwasanaethau. Ceisiwn roi'r gorau o ddau fyd i'n cwsmeriaid.

Rydym yn falch o'r ffordd rydym wedi amlinellu'n huchelgais sydd â diben cymdeithasol, ac mae arnom eisiau ymwreiddio'n hymagwedd er budd cenedlaethau'r dyfodol. Dyma pam rydym wedi paratoi'r ddogfen hon. Mae'n amlinellu'r hyn rydym yn ei gredu y mae bod yn gwmni sydd â diben cymdeithasol yn ei olygu i Hafren Dyfrdwy, a sut y gallwn gael ein gwneud i fod yn atebol am gadw at yr egwyddorion hyn gan gynorthwyo'r gymdeithas ehangach.

Mae'r ddogfen hon yn pwyso ar ein treftadaeth oddi wrth Hafren Dyfrdwy ac ar waith ein chwaer gwmni, Dŵr Hafren Trent.



Ymgorffori diben cymdeithasol wrth graidd llunio'n penderfyniadau

Mae'n rhaid i gwmni sydd â diben cymdeithasol gael diben cymdeithasol wrth graidd y gwaith o lunio'i benderfyniadau.

I ni, mae hyn yn golygu gwneud penderfyniadau ar gyfer y cyfnod hir; ychwanegu gwerth i'n cwsmeriaid, y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'r amgylchedd; a thrin ein holl weithwyr a rhanddeiliaid eraill yn deg.

Datblygwyd ein diben cymdeithasol gan roi ystyriaeth lawn i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n gyson â'i huchelgais o wella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Drwy feddwl o ddifri' am, ac ystyried, effaith cyfnod hir ein penderfyniadau ar ein gweithwyr a'n cymunedau, gallwn wneud newid cadarnhaol hir-barhaol i genedlaethau presennol a'r dyfodol.

Yn Hafren Dyfrdwy, rydym eisoes yn ceisio gweithredu drwy'n hegwyddorion diben cymdeithasol. Fodd bynnag, hoffem wneud mwy fyth a'u gweld yn cael eu hysgrifennu fel rhan o'n trwydded, dogfen ein cyfansoddiad craidd, yn amodol ar gytundeb ein rheolydd, Ofwat.



Mesurau Diben Cymdeithasol Hafren Dyfrdwy

Mae diben eglur yn bwysig, ond mae hefyd yn angenrheidiol cael pecyn helaethach o fesurau i gynorthwyo â'r gwaith o'i gyflawni'n effeithiol. Amlinellir y pecyn helaethach hwn isod.

Cyflawni gwasanaethau craidd rhagorol

Ein gwaith craidd yw darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff rhagorol i'n cwsmeriaid.

Yn unol â'n hymrwymiaid rheoliadol, byddwn yn cyhoeddi cynllun bob pum mlynedd yn amlinellu ymrwymiaidau o ran blaenoriaethau a gwasanaeth, ymrwymiaidau a gymhellir gan yr hyn a ddywed cwsmeriaid wrthym sydd bwysicaf iddynt.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau a warantwyd yn annibynnol bob blwyddyn yn amlinellu sut rydym yn perfformio yn erbyn yr ymrwymiaidau perfformio craidd. Byddwn bob amser yn sicrhau bod ein perfformiad yn dryloyw fel y gallwn yn hawdd bod yn atebol am ein gweithredoedd.

Llais nerthol i gwsmeriaid, gweithwyr a rhanddeiliaid

Fel cwmni sydd â diben cymdeithasol, rhown lais nerthol i gwsmeriaid, gweithwyr a rhanddeiliaid eraill.

Byddwn yn defnyddio ymchwil marchnata a'r arferion gorau diweddaraf i ganfod barn a blaenoriaethau cwsmeriaid wrth inni gyflenwi a gweithredu'n cynlluniau.

Byddwn hefyd yn rhoi llais pwysig i'n gweithwyr. Rydym yn gwerthfawrogi Fforwm ein Cwmni sydd wedi'i hen ennill ei blwyf, ac rydym hefyd yn sicrhau bod gan bob gweithiwr y cyfle i fod yn rhan-berchenogion o'r cwmni, sef budd y mae tua 74 y cant eisoes wedi manteisio arno.

Cydnabyddwn werth a phwysigrwydd ein hunaniaeth Gymreig i'n cwsmeriaid ac rydym wedi'n hymrwymo i gyflawni safonau'r iaith Gymraeg ar gyfer y cwsmeriaid hynny sy'n dewis cyfathrebu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn darparu cyrsiau iaith Gymraeg i weithwyr sy'n cynorthwyo cwsmeriaid Hafren Dyfrdwy ac yn cynnwys yr iaith Gymraeg fel sgil manteisiol / hanfodol ar swydd-ddisgrifiadau ar gyfer gweithwyr newydd. Byddwn yn adrodd yn dryloyw ynglŷn â sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.



Gweithio mewn partneriaeth i wneud mwy dros ein cymunedau

Byddwn yn ceisio cael y buddion mwyaf i gymunedau lleol yn y ffordd rydym yn cyflenwi gwasanaethau o'r radd flaenaf, yn aml drwy weithio drwy bartneriaethau lle y gallwn gyflawni mwy dros gymdeithas nag y gallwn ar ein pen ein hunain.

O ran yr amgylchedd, rydym wedi'n hymrwymyo i fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni buddion amgylcheddol a chymdeithasol helaethach. Er enghraifft, rydym yn gweithio â Chonsortium Bydd Wyrdd y Drenewydd a chael partneriaeth hirsefydlog â'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn Llyn Efyrrwy.

O ran y gymdeithas ehangach, rydym wedi rhoi cymorth cynhwysfawr ar waith ar gyfer unrhyw gwsmeriaid sydd yn ei chael hi'n anodd talu'u bil dŵr, rydym yn rhoi rhaglen addysg ar waith fesul cam ar gyfer ysgolion lleol, ac rydym yn annog pob cydweithiwr i dreulio o leiaf deuddydd y flwyddyn yn gwirfoddoli yn ystod amser y cwmni. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi WaterAid, yr elusen sy'n darparu gwasanaethau sy'n arbed bywydau i rai o'r cymunedau tlotaf yn y byd.

Byddwn yn crynhoi'r buddion ychwanegol rydym yn eu darparu i'r gymdeithas ehangach yn ein hadroddiad blyneddol, gan ganiatáu inni fod yn atebol.

Gweithio'n galed i fod yn gyflogwr enghreifftiol deilwng

Gwnawn bob amser weithio'n galed i fod yn gyflogwr enghreifftiol deilwng ac mae gennym achrediad fel cyflogwr sy'n talu cyflog byw gwirioneddol. Yn y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ymestyn ein hymrwymiad i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i bobl sy'n gweithio â Hafren Trent yn ein cadwyn gyflenwi, nid dim ond ein gweithwyr uniongyrchol.

Byddwn yn benodol yn:

- Cynorthwyo pob gweithiwr gyda lles meddwl a chorfforol.
- Darparu cyfleoedd hyfforddi o safon fyd-eang, gan roi'r cyfle i bawb wneud y defnydd mwyaf o'u doniau.
- Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.
- Sicrhau y caiff staff eu gwobrwyo'n deg ac y cânt eu trin â pharch.
- Ymrwymo i hyrwyddo symudedd cymdeithasol drwy recriwtio a datblygu.

Byddwn yn adrodd am ein perfformiad yn ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blyneddol.



Gweithio i fodloni egwyddorion moesegol pendant

Gwnaethom fabwysiadu fframwaith moesegol pendant drwy'r cwmni i gyd o'r enw Gwneud y Peth lawn (Doing the Right Thing). Ymysg pethau eraill, gwnawn ein hunain yn atebol i fod yn ddidwyll a theg, i dalu'n cyfran deg o dreth ac i gymryd ymagwedd cyfnod hir.

Byddwn yn adrodd am ein perfformiad yn flynyddol.



Cysoni buddiannau'r cwmni â buddiannau cwsmeriaid

Gwnawn gysoni buddiannau buddsoddwyr â buddiannau cwsmeriaid drwy fecanweithiau, fel Mentrau Cyflawni Canlyniadau.

Os gwnawn fuddsoddi mwy ac os ydym yn gallu cyflawni'n ychwanegol i gwsmeriaid mewn meysydd y maent yn dweud sydd bwysicaf iddynt, golyga Mentrau Cyflawni Canlyniadau y gallwn ariannu'r gwelliannau hyn. Os methwn â chyflenwi, byddwn yn dioddef cosb.

I gwsmeriaid a all fod mewn amgylchiadau anodd ac sydd angen cymorth ychwanegol, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Cymru Gynnes, Cymdeithas Tai Newydd a Chymdeithas Tai Canolbarth Cymru. Mae'r cydweithrediad hwn wedi'n helpu i gyrraedd mwy o gwsmeriaid oedd yn ei chael hi'n anodd talu'u biliau.

Byddwn yn darparu adroddiad blynyddol, wedi'i archwilio'n annibynnol am ein perfformiad.

Tryloyw ac atebol

Credwn fod tryloywder wrth graidd yr hyn y mae bod yn gwmni sydd â diben cymdeithasol yn ei olygu. Mae tryloywder yn offer nerthol a hyblyg ar gyfer gwneud i sefydliadau fod yn atebol.

Rydym wedi'n hymrwymo i:

- Cyhoeddi adroddiadau blynyddol, wedi'u harchwilio sy'n amlinellu'n perfformiad gweithredol, cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol.
- Rhoi'n uwch-reolwyr ar gael yn llwyr i grwpiau cwsmeriaid priodol, Fforwm y Cwmni a rhanddeiliaid eraill.
- Cynnal y safonau uchaf un o lywodraethu corfforaethol drwy'n hymrwymiad i egwyddorion Ofwat ar gyfer arweinyddiaeth, tryloywder a llywodraethu'r Bwrdd, a chydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU (ar sail wirfoddol).

Casgliad

Er bod amgylchiadau'n newid, mae'r gwerthoedd gwaelodol sy'n gyfrifol am wneud cwmni sydd â diben cymdeithasol yn werthoedd parhaus. Rydym wedi ceisio codeiddio'r arferion gorau un oddi mewn i Hafren Dyfrdwy a'r tu hwnt i ddarparu fframwaith cywir i gynyddu'n cyfraniad hyd yr eithaf tuag at y gymdeithas ehangach am genedlaethau i ddod.



RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP



severn dee